

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Yn cefnogi elusennau, gwirfoddolwyr a chymunedau

Cyfres Polisiâu Enghreifftiol



Cytundeb Gwirfoddoli Enghreifftiol

Bwriedir yr enghraifft hon at ddibenion arweiniad a dylid ei haddasu i anghenion eich mudiad penodol chi.

Rydym yn gwerthfawrogi'r ffaith eich bod yn gwirfoddoli gyda ni, ac mae'r cytundeb hwn yn dynodi ein hymrwymiad i wneud ein gorau i ofalu bod eich profiad gwirfoddoli yn un positif a'i fod yn rhoi boddhad i chi. Anelwn at fod yn hyblyg felly mae croeso i chi roi gwybod i ni os hoffech newid neu drafod unrhyw beth.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'r disgrifiad o'ch Rôl Wirfoddol a'r Polisi Gwirfoddoli/Llawlyfr Gwirfoddoli.

Cytundeb gwirfoddol yw hwn ac nid yw'n gyfystyr â contract cyflogaeth. Gall y naill ochr neu llall ei ganslo unrhyw bryd.

Fel mudiad ymrwymwn i wneud y canlynol:

- eich cyflwyno i'ch rôl, y mudiad a staff a gwirfoddolwyr eraill y byddwch yn dod i gysylltiad â nhw
- rhoi cyfleoedd rheolaidd i chi gwrdd â'ch goruchwyliwr.
_____ yw eich goruchwyliwr
- ceisio deall eich rhesymau dros wirfoddoli, eich diddordebau a'ch dymuniadau a bodloni'r rhain cyn belled â phosib
- ad-dalu mân dreuliau
- ymgynghori â chi ynglŷn â newidiadau sy'n effeithio ar eich gwirfoddoli
- darparu amgylchedd diogel ac yswiriant i chi tra'r ydych yn gwirfoddoli
- eich trin â pharch, yn unol â'n polisi cyfle cyfartal
- ymateb i'ch pryderon neu'ch cwynion mor gyflym ag y gallwn

Fel gwirfoddolwr ymrwymaf i wneud y canlynol:

- cyflawni tasgau o fewn canllawiau y cytunir arnynt, hyd eithaf fy ngallu
- rhoi cymaint o rybudd â phosib os na allaf wirfoddoli fel y disgwyl
- cynnal gwerthoedd a pholisïau'r mudiad, gan gynnwys iechyd a diogelwch, cyfrinachedd, cyfle cyfartal

- rhoi gwybod am unrhyw beth sy'n peri pryder i'm diogelwch/llesiant neu i ddiogelwch/llesiant pobl eraill
- gwneud fy ngorau i beidio ag ymddwyn mewn unrhyw ffordd a fyddai'n dwyn anfri ar y mudiad
- manteisio ar gyfleoedd hyfforddi a datblygu

Croeso i'r criw!

Llofnod _____ (gwirfoddolwr)

Llofnod _____ (ar ran y mudiad)

Dyddiad _____

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sqwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd,
Caerdydd, CF10 5FH
Elusen Gofrestredig: 218093

Ffôn: 0800 2888 329 help@wcva.org.uk
 Ffacs: 029 2043 1701 www.wcva.org.uk



Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk

Wedi ei ddiweddarau: 14/02/2018